Y Fonesig Rosemary Butler AC
Dame Rosemary Butler AM

Llywydd
Presiding Officer

William Graham AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: PO/RB/LJ

2 Mawrth 2016

Annwyl William

Yn ystod ei gyfarfod yr wythnos ddiwetha', trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 5) mewn perthynas â Bil Menter Llywodraeth y DU.

Mae a wnelo'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol â diwygiadau sy'n creu pwerau rhannu data rhwng Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC), yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yng nghyd-destun swyddogaethau prentisiaethau. Cytunodd y Rheolwyr Busnes fod cynnwys y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn fwyaf perthnasol i'r Pwyllgor Menter a Busnes.

Oherwydd cyfyngiadau amser, gan fod diddymiad y Cynulliad yn agos, ac oherwydd bwriad y Llywodraeth i drefnu dadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer 15 Mawrth, cytunodd y Pwyllgor Busnes i beidio â chyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol i Bwyllgor ar gyfer craffu, ond fe nododd y dylai'r Llywydd ysgrifennu at y Pwyllgor Menter a Busnes.



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA
Swyddfa.Breifat@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6232

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff CF99 1NA
Private.Office@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6232

Llywydd
Presiding Officer

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i nodi penderfyniad y Pwyllgor Busnes.

Cofion gorau,

**Y Fonesig Rosemary Butler AC**
**Llywydd**
**Cadeirydd y Pwyllgor Busnes**